Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Cylchlythyr y sector Addysg Gychwynnol Athrawon – Haf 2026

**Rhifyn: Haf 2026 | Dyddiad: 26.06.2026 | Oddi wrth: Estyn | Cynulleidfa: Partneriaethau AGA a rhanddeiliaid**

Croeso i gylchlythyr sector Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) Estyn. Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi crynodeb o'r prif negeseuon ar gyfer y sector AGA, ynghyd â datblygiadau ehangach Estyn a allai fod o ddiddordeb i addysgwyr athrawon mewn prifysgolion ac ysgolion. Mae croeso i chi anfon y cylchlythyr ymlaen at gydweithwyr ym maes AGA.

## Yn y rhifyn hwn


- Cyfarfod Grŵp Cyfeirio Partneriaethau AGA
- Rôl yr arolygydd cyswllt AGA
- Ffocws estynedig Estyn ar ddarllen
- Addysgu ac arweinyddiaeth mathemateg
- Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i gefnogi addysgu a dysgu
- Mwy na dewis olaf: Trefniadau ar gyfer gwasanaethau tiwtora AHY yng Nghymru, a’u hansawdd
- Addysgu a Dysgu Gwyddoniaeth: Addysgu ar gyfer dealltwriaeth mewn ystafelloedd dosbarth gwyddoniaeth
- Mentora
- Podlediadau *Sgwrs*
- Tudalennau'r sector AGA ar ein gwefan
- Dysgu
- Digwyddiadau a dyddiadau i ddod
- Cysylltiadau


## Cyfarfod Grŵp Cyfeirio Partneriaethau AGA

Ym mis Ebrill, croesawom gynrychiolwyr o bob partneriaeth AGA yng Nghymru i gyfarfod cyntaf ein Grŵp Cyfeirio Partneriaethau AGA. Rhoddodd y digwyddiad gyfle i drafod ein cynigion cynnar ar gyfer y fframwaith arolygu AGA newydd ac i gasglu adborth gan y sector. Ers hynny, rydym wedi ystyried yn ofalus y safbwyntiau a rannwyd gan gynrychiolwyr y partneriaethau ac wedi defnyddio'r adborth hwn i fireinio ail ddrafft *Beth rydym yn ei arolygu* ac i lywio datblygiad cynnar *Sut rydym yn arolygu*. Mae rhai o'r prif newidiadau yn cynnwys:

- symud o bum maes arolygu i dri
- canolbwyntio'r meysydd arolygu ar:

    - MA1 Dysgu, addysgu a mentora
    - MA2 Proffesiynoldeb, lles a gofal
    - MA3 Arwain a gwella
- cyflwyno adran 'cynnydd dros amser', sy'n darparu sylwebaeth werthusol gryno ar agwedd ar waith y bartneriaeth lle gwnaed cynnydd cadarnhaol tuag at fynd i'r afael ag argymhelliad (neu agwedd ar argymhelliad) o'i hadroddiad arolygu diwethaf.

Mae'r tabl isod yn amlygu rhai o'r prif negeseuon a glywsom yn ystod digwyddiad y grŵp cyfeirio a sut y maent wedi dylanwadu ar gam nesaf ein gwaith:

| Yr hyn a glywsom gan y partneriaethau | Sut rydym wedi ymateb |
| --- | --- |
| Croesawyd y fframwaith, yn enwedig ei ffocws ar athrawon dan hyfforddiant, cynnydd ac effaith. | Rydym wedi cadw'r prif strwythur, ynghyd â'r weledigaeth a'r rhesymeg sy'n sail i'r fframwaith. |
| Teimlwyd bod rhai agweddau ar y fframwaith yn rhy ddwys, gyda dyblygu rhwng y meysydd arolygu. | Rydym wedi lleihau dyblygu a chryfhau'r cydlyniad rhwng y meysydd arolygu, yn enwedig rhwng MA1 a MA2. |
| Roedd y cyfranogwyr am weld mwy o eglurder ynghylch cysyniadau allweddol a'r hyn y bydd arolygwyr yn ei werthuso. | Rydym wedi cryfhau'r naratif cyflwyniadol ac wedi egluro diben a ffocws pob maes arolygu. Byddwn yn datblygu canllawiau ategol ar gyfer meysydd allweddol, megis addysgu a mentora. |
| Dylai cymhlethdod gweithio mewn partneriaeth a'r trefniadau atebolrwydd gael eu hadlewyrchu'n gryfach. | Rydym wedi cryfhau'r cyfeiriadau at gydweithio, gweithio mewn partneriaeth a llais athrawon dan hyfforddiant, yn enwedig ym Maes Arolygu 3, Arwain a gwella. |
| Dylid parhau i gryfhau'r gwahaniaeth rhwng arolygu ac achredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA). | Rydym wedi mireinio ffocws y fframwaith ymhellach ar ansawdd, effaith a deilliannau athrawon dan hyfforddiant, gan gynnal gwahaniaeth clir rhwng rôl arolygu Estyn a chyfrifoldebau achredu Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA). |

Mae adborth y grŵp wedi bod yn amhrisiadwy wrth ein helpu i brofi ein syniadau cychwynnol ac i sicrhau bod ein cynigion yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi gwelliant, cynnal ansawdd a darparu atebolrwydd cyhoeddus mewn ffordd gymesur a chefnogol.

## Rôl yr arolygydd cyswllt

Ers mis Medi 2025, rydym wedi cyflwyno rôl newydd yr arolygydd cyswllt AGA. Diben y rôl yw cynnal ymgysylltiad rheolaidd â'r partneriaethau yn ystod y cyfnod rhwng cylchoedd arolygu a chefnogi'r sector wrth iddo barhau i ddatblygu ei ddarpariaeth a'i arweinyddiaeth. Drwy ymweliadau tymhorol neu gyfarfodydd ar-lein, mae arolygwyr cyswllt yn gweithredu fel cyfeillion beirniadol, gan ymgymryd â deialog broffesiynol ag arweinwyr a thimau AGA, cynnig her adeiladol a darparu cyfleoedd i fyfyrio.

Caiff y trafodaethau a'r gweithgareddau yn ystod ymweliadau eu teilwra i gyd-destun a blaenoriaethau pob partneriaeth. Er bod cynnydd yn erbyn argymhellion arolygu blaenorol yn parhau i fod yn ffocws, mae'r ymgysylltu hefyd yn rhoi cyfle i archwilio datblygiadau ehangach yn y bartneriaeth a blaenoriaethau cenedlaethol newydd i Gymru.

Gan fod y rôl yn dal i esblygu, byddwn yn adolygu'r flwyddyn gyntaf o weithgarwch ac yn casglu adborth gan y partneriaethau i helpu i lywio'r trefniadau ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod y rôl yn parhau i gefnogi gwelliant ac yn meithrin capasiti ar draws y sector. Bydd rôl yr arolygydd cyswllt yn parhau i fod yn nodwedd bwysig o'n hymgysylltiad â phartneriaethau AGA y tu hwnt i gyflwyno'r trefniadau arolygu newydd ym mis Medi 2027, gan helpu i gynnal deialog broffesiynol a chefnogi gwelliant parhaus.

*Ar ddiwedd y cylchlythyr hwn, ceir trosolwg o ffyrdd eraill yr ydym yn cefnogi gwelliannau ym maes Addysg Gychwynnol Athrawon.*

## Ffocws estynedig Estyn ar ddarllen

Fel rhan o ffocws estynedig Estyn ar ddarllen, rydym wedi parhau i ystyried sut y dylai darllen gael ei hadlewyrchu yn nhrefniadau arolygu AGA yn y dyfodol. Mae darllen wedi bod yn rhan o'n gwerthusiad o addysgu a dysgu erioed. Fodd bynnag, o fis Medi 2027 ymlaen, bydd arolygwyr yn rhoi mwy o bwyslais ar ba mor effeithiol y mae partneriaethau'n sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn datblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau sydd eu hangen i gefnogi datblygiad darllen disgyblion.

O ganlyniad, mae ein canllawiau ‘Beth rydym yn ei arolygu’ yn cynnwys cyfeiriadau cliriach at ddarllen ac yn adlewyrchu'r rôl bwysig sydd gan athrawon dan hyfforddiant wrth gyfrannu at ddatblygiad disgyblion i fod yn ddarllenwyr hyderus a medrus. Rydym hefyd wedi cryfhau ein ffocws ar sut mae partneriaethau'n helpu athrawon dan hyfforddiant i ddeall nodweddion diwylliant darllen cryf ac i ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi disgyblion ar wahanol gamau yn eu datblygiad fel darllenwyr.
Gallwch ddarllen rhagor am ein ffocws estynedig ar ddarllen ar draws yr holl sectorau rydym yn eu harolygu yma: **Darllen: Er mwyn dysgwyr, er mwyn Cymru – Estyn**.

## Addysgu ac arweinyddiaeth mathemateg

Yn ystod tymor y gwanwyn, bu Estyn yn gweithio mewn partneriaeth â Dysgu i gyflwyno cyfres o sioeau teithiol mathemateg ac i ddatblygu ystod o adnoddau i gefnogi ymarferwyr mewn lleoliadau ysgol. Gan adeiladu ar dystiolaeth arolygu genedlaethol, mae'r adnoddau hyn yn amlygu nodweddion addysgu, arweinyddiaeth ac ymarfer cynhwysol effeithiol ym maes mathemateg.

Gall y deunyddiau hyn hefyd fod o ddiddordeb i bartneriaethau AGA, gan ddarparu mewnwelediadau gwerthfawr i'r dulliau a'r ymarfer sy'n cefnogi deilliannau cadarn i ddysgwyr. Gallant helpu i lywio'r ddarpariaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant, gan gefnogi eu dealltwriaeth gynyddol o addysgu mathemateg effeithiol. Cliciwch yma i weld crynodeb ac i gael mynediad at yr adnoddau a ddatblygwyd:

**Datgloi potensial: Mewnwelediadau i wella addysgu ac arweinyddiaeth ym maes addysg mathemateg – Estyn**.

## Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i gefnogi addysgu a dysgu

Mae datblygiad cyflym deallusrwydd artiffisial (DA), yn enwedig deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (DAC), yn dylanwadu fwyfwy ar lawer o agweddau ar fywyd bob dydd, gan gynnwys addysg. Wrth i dechnolegau DA ddod yn fwy hygyrch, mae ysgolion a'r system addysg yn archwilio sut y gallant gefnogi dysgu ac addysgu, gan ystyried ar yr un pryd gwestiynau pwysig ynghylch moeseg, diogelwch, diogelu data a dyfodol dysgu. I bartneriaethau AGA, mae hyn yn cyflwyno cyfleoedd yn ogystal â chyfrifoldebau. Mae ein hadroddiad thematig diweddar yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod darparwyr addysg gychwynnol athrawon yn paratoi athrawon dan hyfforddiant i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn briodol yn eu hymarfer proffesiynol ac i gefnogi disgyblion i ymgysylltu â deallusrwydd artiffisial mewn ffordd ddiogel, foesegol a beirniadol. Darllenwch ragor yma: **Cyfnod Newydd: Sut mae Deallusrwydd Artiffisial (DA) yn Cefnogi Addysgu a Dysgu**.

## Mwy na dewis olaf: Trefniadau ac ansawdd darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) yng Nghymru

Yn ystod tymor y gwanwyn, cyhoeddwyd ein hadroddiad thematig, **'Mwy na dewis olaf: Trefniadau ac ansawdd darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) yng Nghymru'**, sy'n rhoi trosolwg o'r trefniadau a'r ddarpariaeth EOTAS yng Nghymru. Gallai'r adroddiad fod yn ddefnyddiol i bartneriaethau AGA wrth gryfhau dealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant o anghenion disgyblion sy'n agored i niwed ac wrth ystyried enghreifftiau ymarferol o sut y gellir rhoi theori ar waith yn ymarferol.

## Addysgu a Dysgu Gwyddoniaeth: Addysgu er mwyn deall mewn ystafelloedd dosbarth gwyddoniaeth

Mae'r adroddiad thematig hwn, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn archwilio ansawdd dysgu ac addysgu gwyddoniaeth mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed yng Nghymru. Mae'n gwerthuso pa mor effeithiol y mae ysgolion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau ymholi gwyddonol disgyblion fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg o fewn y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer y grŵp oedran 7 i 16. Mae'r adroddiad yn ystyried effeithiolrwydd cynllunio'r cwricwlwm, addysgu, asesu ac arweinyddiaeth, yn ogystal â pha mor dda y mae ysgolion yn cefnogi dilyniant mewn gwyddoniaeth ar draws y cyfnodau. Mae hefyd yn archwilio agweddau disgyblion tuag at wyddoniaeth a pha mor dda y maent yn cymhwyso eu dysgu mewn cyd-destunau dilys. Mae'r adroddiad yn cynnwys enghreifftiau o arfer effeithiol yn y sectorau cynradd ac uwchradd: **Addysgu a Dysgu Gwyddoniaeth**.

## Mentora

Mae mentora o ansawdd uchel yn ganolog i addysg gychwynnol athrawon effeithiol ac yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi dysgu, hyder a datblygiad proffesiynol athrawon dan hyfforddiant. Mae mentora effeithiol hefyd o fudd i ymarferwyr ar ddechrau eu gyrfa ac i'r rhai mwy profiadol, gan ddarparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer dysgu proffesiynol, myfyrio a datblygu arweinyddiaeth. Er iddo gael ei gyhoeddi yn 2018, mae ein hadroddiad thematig ar fentora mewn addysg gychwynnol athrawon yn parhau i fod yn adnodd defnyddiol i arweinwyr ac addysgwyr athrawon, yn enwedig y rhai sy'n newydd i'r sector. Mae'r adroddiad yn archwilio nodweddion mentora effeithiol ac yn amlygu'r cyfraniad pwysig y mae mentora yn ei wneud i'r continwwm dysgu proffesiynol. Darllenwch ragor yma: **Y continwwm dysgu proffesiynol: mentora mewn addysg gychwynnol athrawon**.

## Podlediad *Sgwrs*

Mae ein cyfres o bodlediadau, Sgwrs, yn archwilio pynciau allweddol sy'n llywio addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae un bennod ddiweddar a allai fod o ddiddordeb i chi yn edrych ar sut mae ysgolion yng Nghymru yn gweithio i leihau effaith tlodi ar ddysgwyr ac i sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i lwyddo. Gallwch archwilio ein holl bodlediadau yma: **Podlediadau – Estyn**.

## Tudalennau'r sector Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) ar ein gwefan

Mae adran Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) gwefan Estyn yn cynnwys ystod o wybodaeth ac adnoddau sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer y sector. Yn ogystal â darparu mynediad at adroddiadau arolygu, adolygiadau thematig ac adnoddau i gefnogi gwelliant, mae'r tudalennau'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am waith datblygu arolygu, gweithgareddau ymgysylltu ac adnoddau a all gefnogi partneriaethau, mentoriaid, addysgwyr athrawon ac arweinwyr. Rydym yn diweddaru'r tudalennau hyn yn rheolaidd i adlewyrchu datblygiadau parhaus, gan gynnwys ein gwaith ar drefniadau arolygu'r dyfodol a gweithgarwch ehangach i gefnogi gwelliant a meithrin capasiti ar draws y sector.
Ewch i dudalennau AGA **yma**.

Efallai y bydd ein hadnodd diweddar, **Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) Darllen: Awgrymiadau myfyriol - Estyn**, yn ddefnyddiol i gefnogi athrawon dan hyfforddiant wrth arsylwi ar arferion darllen effeithiol yn ystod eu profiadau mewn ysgolion, myfyrio arnynt a'u trafod.

## Dysgu

Dysgu yw corff cenedlaethol Cymru ar gyfer dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth, sy'n canolbwyntio ar gryfhau ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth ar draws y system addysg. Mae ein gwaith yn cefnogi'r

gweithlu addysg cyfan, gan gynnwys cydweithwyr ym maes addysg gychwynnol athrawon a'r rhai sy'n paratoi i ymuno â'r proffesiwn.

Meysydd allweddol sy'n cael sylw yw:

- **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY):** Darpariaeth ddysgu broffesiynol bwrpasol ar gyfer Cydlynwyr ADY (CADY) i gryfhau arweinyddiaeth ac egluro eu rôl, ochr yn ochr â dull ysgol gyfan sy'n gwreiddio ymarfer cynhwysol a chyfrifoldeb ar y cyd.
- **Datblygu'r Cwricwlwm ac Addysgeg:** Rhaglen newydd ar gyfer athrawon Cymraeg Craidd (Blynyddoedd 5 i 8) i gryfhau addysgeg a chefnogi'r pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Ategir hyn gan sioe deithiol genedlaethol Dysgu (Hydref 2026) a chyfres o bodlediadau ar Gymraeg Craidd, rhifedd a mathemateg (Hydref 2026).
- **Llythrennedd ac Ymgysylltu:** Digwyddiadau darllen cenedlaethol a gyflwynir ledled Cymru mewn partneriaeth â CAL:ON Cymru (Tachwedd 2026).
- **Rhaglenni a Phartneriaethau Cenedlaethol:** Cyllido a goruchwylio'r MA Education (Wales) cenedlaethol o fis Mehefin 2026, ynghyd â recriwtio a hyrwyddo'r EdD (Wales**)** cenedlaethol. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 14 Awst 2026.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd a datblygiadau, cofrestrwch i dderbyn ein cylchlythyr: **www.dysgu.llyw.cymru**.

## Digwyddiadau a dyddiadau i ddod

| **Tymor** | **Digwyddiad / gweithgaredd** |
|---|---|
| Tymor yr haf 2026 | Ymweliadau arolygwyr cyswllt ac ymweliadau Ymgysylltu Estyn Estynedig â phob partneriaeth AGA |
| Tymor yr hydref 2026 | Cyfarfod Grŵp Cyfeirio Partneriaethau AGA, Swyddfeydd Estyn, Anchor Court (1 Hydref 2026) |
| Tymor yr hydref 2026 | Fforwm Rhanddeiliaid ar y Cyd Estyn/Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA), Swyddfeydd Estyn, Anchor Court (13 Hydref 2026) |

## Cysylltiadau

Wrth baratoi ar gyfer digwyddiadau rhanddeiliaid yn y dyfodol, hoffem wahodd partneriaethau i awgrymu syniadau ar gyfer gweithdai neu agweddau ar ymarfer yr hoffent eu harddangos. Anfonwch eich syniadau drwy e-bost at **sarah.lloyd-davies@estyn.gov.wales**.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein gwaith gyda'r sector AGA, cysylltwch â Carwyn Jenkins AEF neu Liz Barry AEF:

**carwyn.jenkins@estyn.gov.wales** **liz.barry@estyn.gov.wales**

*Gan ddymuno gwyliau haf braf a hamdddenol i chi,*

**Tîm AGA Estyn**

Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# 6 ffordd mae Estyn yn cefnogi gwelliant mewn Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)

Estyn

## 1 Ymweliad tymhorol arolygydd cyswllt

Mae arolygwyr cyswllt yn cefnogi partneriaethau AGA i fyfyrio ar eu cryfderau a nodi, neu fireinio, meysydd i'w gwella trwy ddeialog broffesiynol rheolaidd, cefnogol a gweithgarwch ar y cyd.

## 2 Adnoddau gwella

Mae Estyn yn cefnogi gwelliant drwy gynnig ystod eang o adnoddau, gan gynnwys podlediadau, astudiaethau achos a chanllawiau atodol sy'n arddangos arferion effeithiol mewn AGA ac ysgolion ledled Cymru.

## 3 Adroddiadau arolwg Adroddiad Blynddol Estyn

Trwy ei adroddiadau arolygiadau craidd a thematig, mae Estyn yn darparu crynodeb clir o'r hyn sy'n mynd yn dda a'r hyn sydd angen ei wella. Mae adroddiadau'n cynnwys argymhellion y gall partneriaethau AGA eu hystyried fel rhan o'u prosesau cynllunio gwella.

Rydym yn cyhoeddi ein adroddiad blynyddol ar gyflwr addysg a hyfforddiant ledled Cymru ac mae hyn yn cynnwys canllawiau ar sut i wella.

## 4 Gweithgareddau Dysgu Proffesiynol

Mae Estyn yn darparu amrywiaeth o ddigwyddiadau dysgu a datblygu proffesiynol, gan gynnwys:

- hyfforddiant cychwynnol ar gyfer arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr ychwanegol i gyfrannu fel aelodau tîm arolygiadau AGA
- hyfforddiant diweddaru blynyddol ar gyfer Arolygwyr Cymheiriaid ac Arolygwyr Ychwanegol
- gweithdai ar themâu pwysig, megis hunanwerthuso a datblygu sgiliau athrawon sy'n myfyrwyr.

Nod y cyfleoedd hyn yw i gryfhau gwybodaeth a sgiliau gwerthuso arweinwyr, fel gallant eu cymhwyso i'w lleoliadau partneriaeth eu hunain, gan helpu i adeiladu gallu ar draws y sector.

## 5 Deialog broffesiynol a gweithgarwch ar y cyd yn ystod arolygiadau AGA

Mae arolygwyr yn cymryd rhan mewn trafodaethau proffesiynol gydag ystod eang o randdeiliaid yn ystod arolygiadau craidd, yn enwedig gyda'r 'enwebai' sy'n aelod llawn o'r tîm arolygu. Mae'r trafodaethau hyn yn darparu cyfleoedd buddiol i fyfyrio ar gryfderau, heriau a meysydd i'w gwella partneriaeth.

Gall uwch arweinwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd ag arolygwyr. Mae'r rhain yn helpu arolygwyr i ddysgu mwy am gyd-destun y bartneriaeth ac yn darparu cyfleoedd i arweinwyr AGA ddysgu o arferion gwerthuso arolygwyr.

## 6 Digwyddiadau Rhanddeiliaid

Mae Estyn yn arwain ystod eang o weithgareddau rhanddeiliaid, gan gynnwys cyfarfodydd, gweithdai a chynadleddau. Mae hefyd yn cyfrannu at gyfarfodydd USCET Cymru, paneli cynghori Llywodraeth Cymru a phrosiectau ymchwil rhyngwladol, er enghraifft ar Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol. Nod y cyfraniadau hyn yw cefnogi datblygiadau ITE a llywio polisi cenedlaethol. Mae'n gweithio'n agos gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ar faterion o'r fath.

© Crown Copyright 2026